Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.12 Timau Ewropeaidd Gofodol

Cefnogi gweithrediad rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013

Beth yw rôl y Timau Ewropeaidd Gofodol (SETs)?

Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i fudiadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector sydd ynghlwm wrth weithrediad y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd sydd ar gael yng Nghymru yn ystod 2007 - 2013.

Eu pwrpas yw helpu sicrhau cynnwys partneriaethau sy'n bodoli'n barod ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, annog cydweithrediad cynllunio a datblygu prosiect a chefnogi'n gyffredinol datblygiad a gweithrediad prosiectau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Cydlynir y SETs gan swyddfeydd rhanbarthol Llywodraeth Cymru o fewn yr Adran Economi a Thrafnidiaeth yng Ngogledd, Canolbarth, De-Orllewin a De-Ddwyrain Cymru.

Gellir cael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth oddi wrth:

- Gweithwyr allgymorth SET o fewn Timau Ewropeaidd yr Awdurdod Lleol, parthed prosiectau lleol a rhanbarthol;
- Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cymru (DCELLS), parthed prosiectau ESF; a
- Tîm Ewrop Trydydd Sector WCVA (3-SET).

Pa wasanaethau a ddarperir gan y 3-SET?

Cydlynir y 3-SET gan WCVA ar lefel genedlaethol, a darperir gwasanaethau a luniwyd yn ôl diddordebau mudiadau'r trydydd sector ar hyd ardaloedd Cydgyfeirio (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol (Dwyrain Cymru).

Mae tîm 3-SET yn cydweithio gyda, ac yn ategu at, y gefnogaeth a ddarperir gan y Gweithwyr Allgymorth lleol SET a DCELLS drwy ddarparu arbenigedd pwrpasol ar lefel genedlaethol i alluogi mudiadau'r trydydd sector i gyfrannu at draddodiad y rhaglenni.

Mae 3-SET yn cynnig gwasanaethau ar dair lefel:

1. Mudiadau trydydd sector yng Nghymru

Dyma fan cyswllt cyntaf i fudiadau trydydd sector parthed gwybodaeth a chyngor ar y rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2007 – 2013, gan gyfeirio at Weithwyr Allgymorth SET, cynghorau gwirfoddol sirol, Tîm SET DCELLS, Swyddogion Datblygu prosiect WEFO, Cydlynwyr Fframwaith Strategol a staff llinell gymorth WEFO fel bo'n addas.

- Gwybodaeth reolaidd, codi ymwybyddiaeth a digwyddiadau ymgynghori.
- Taflenni gwybodaeth a chyfarwyddyd ar y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007 – 2013.
- Gwefan gyda gwybodaeth ar ariannu Ewropeaidd.
- Cylchlythyr chwarterol ar themâu Ewropeaidd.
- Cynrychiolaeth materion sy'n effeithio mudiadau trydydd sector ynghylch Pwyllgor Rheoli'r Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a gweithgorau perthnasol eraill.

2. Noddwyr a thraddodwyr prosiectau Cronfeydd strwythurol y Trydydd Sector

- Cyngor a chyfarwyddyd ar ddatblygiad, gweithrediad ac ôl -ofal y prosiect.
- Gweithio gyda Gweithwyr Allgymorth SET i ddarparu cefnogaeth ar gyfer cydweithio prosiect a brocera partneriaeth.
- Rhaglen dreigl hyfforddiant ar:
  - Rheoli prosiect
  - Asesu risg a sicrwydd ansawdd
  - Tendro a chaffaeliad
  - Ariannu Cynaliadwy
- Cyngor a chymorth un ac un ar dendro a chaffaeliad a rheoli risg.

3. Noddwyr prosiect Cronfeydd Strwythurol y sector gyhoeddus

- Cefnogaeth ar gyfer noddwyr prosiect Cronfeydd Strwythurol y sector gyhoeddus sy'n dymuno cysylltu â mudiadau trydydd sector mewn trefniadau partneriaeth, gan gynnwys drwy draddodi cytundebol.
- Arwydd-bostio mudiadau trydydd sector at brosiectau strategol y sector gyhoeddus.
- Cynrychiolaeth ar grwpiau llywio prosiectau'r sector gyhoeddus.
- Hyfforddiant ar gyfer mudiadau trydydd sector sy'n rhan o draddodi prosiectau Cronfeydd Strwythurol y sector gyhoeddus ar:
  - Rheolaeth prosiect
  - Asesu risg a sicrwydd ansawdd
  - Tendro a chaffaeliad
  - Ariannu Cynaliadwy

Enwau Cyswllt

Gweithwyr Allgymorth Lleol SET

Am ymholiadau am brosiectau lleol a gofodol, cysylltwch â'r Gweithwyr Allgymorth SET yn yr ardal Awdurdod Lleol perthnasol. Gellir dod o hyd i'r manylion cyswllt ar dudalennau '*Tîm Ewropeaidd Gofodol* ar wefan WEFO.

Tîm DCELLS SET

Am ymholiadau parthed prosiectau ESF, cysylltwch â'r Tîm DCELLS SET. Gellir dod o hyd i'r manylion cyswllt ar dudalennau '*Tîm Ewropeaidd Gofodol* ar wefan WEFO.

Tîm 3-SET WCVA

Am ymholiadau parthed gwasanaethau 3-SET, cysylltwch â Judith Stone, Cydlynydd Ewropeaidd, neu Amanda Parsons, Trefnydd, ar 029 2043 1744 neu anfonwch e-bost at: europe@wcva.org.uk.

Cefnogir y prosiect hwn, yn rhannol, gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:01/07/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk